

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM Deddf Ymddygiad
Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 Gorchymyn Gwarchod
Mannau Cyhoeddus Tref Wreccsam 2020**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ("Y Cyngor") trwy weithredu ei bwerau dan Adran 59, 63 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("Y Ddeddf") a than yr holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig llunio Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Tref Wreccsam 2020:

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r manau cyhoeddus o fewn yr ardal ag ymyl coch ar y cynllun sydd ynghlwm, sef manau cyhoeddus yn ardal y Cyngor y mae'r Ddeddf yn cyfeirio atynt ("yr ardal dan gyfyngiadau").
2. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y ddau amod isod wedi'u bodloni, sef bod:
 - (a) gweithgareddau a gynhelir yn yr ardal gyfyngedig fel y disgrifir isod wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal leol, neu ei fod yn debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn y man cyhoeddus a bydd ganddynt y fath rym;
 - (b) effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau, neu'n debygol o fod, o natur gyson neu barhaus, yn, neu'n debygol o fod yn gwneud y gweithgareddau'n afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan Gorchymyn.
3. Bydd y gorchymyn yn dod i rym ar 1 Mawrth 2020 ac yn dod i ben ar 28 Chwefror 2023.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

Gwaharddiadau a/neu ofynion

4. Effaith y gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau canlynol a/neu ofynion yn yr ardal dan gyfyngiadau ('yr ardal') bob amser:
 1. Mae unrhyw un yn cael ei wahardd rhag ymddwyn mewn modd sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod yn yr ardal.
 - 2 i. Mae unrhyw unigolyn o fewn yr ardal yn cael ei wahardd rhag amlyncu, chwistrellu, anadlu, ysmegu neu ddefnyddio sylweddau meddwol fel arall. Caiff sylweddau meddwol eu diffinio fel sylweddau â'r gallu i ysgogi neu ostwng y system nerfol ganolog, ond nid yw'n cynnwys tybaco na meddyginiaeth ar bresgripsiwn (lle cymerir ar gyfer defnydd meddyginiaethol).
-

¹ Mae “man cyhoeddus” yn golygu, unrhyw leoliad lle mae gan y cyhoedd neu ran o’r cyhoedd fynediad iddo, wrth dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

- ii. Mae unrhyw un o fewn yr ardal wedi'i wahardd o fod ag unrhyw gynhwysyddion agored o sylweddau mewnol fel y diffinnir ym mharagraff 2(i).
- iii. Mae unrhyw unigolyn o fewn yr ardal wedi'i wahardd rhag bod ag unrhyw eitem y gellir ei defnyddio i gynorthwyo i gymryd sylweddau meddwol fel y diffinnir ym mharagraff 2(i). Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddyfais ar gyfer ysmegu sylweddau heblaw e-sigarets a hefyd yn cynnwys nodwyddau – heblaw'r rhai wedi eu pacio a'u selio gan y gwneuthurwr a'u storio mewn ces caled.
- iv. Mae unrhyw unigolyn yn cael ei wahardd rhag loetran mewn cyflwr o feddwod neu weithgarwch a achosir oherwydd cyffur yn yr ardal.
- v. Mae unrhyw unigolyn yn cael ei wahardd rhag troethi neu ysgarthu mewn man cyhoeddus yn yr ardal (nid yw hyn yn cynnwys toiledau cyhoeddus).
- vi. Mae unrhyw unigolyn yn cael ei wahardd yn yr ardal rhag ysmegu tybaco, cynnyrch cysylltiedig â thybaco, sigarêts llysieuol neu unrhyw sylwedd anghyfreithiol, o fewn ffin unrhyw ardal chwarae plant.
- vii. Mae unrhyw unigolyn yn cael ei wahardd rhag yfed alcohol mewn unrhyw fan cyhoeddus (eiddo trwyddedig wedi'i wahardd) neu gyda chynhwysydd(ion) agored o alcohol yn eu meddiant. Bydd unigolyn, ar gais Cwnstabl (Yr Heddlu), neu Swyddog awdurdodedig o'r Cyngor yn ildio neu'n cael gwared ar unrhyw beth yn eiddo'r unigolyn y credir sy'n alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol y credir yr oeddent yn yfed alcohol ohono.

3. Cosbau

(a) Os, heb esgus rhesymol, y canfyddir bod unigolyn yn torri unrhyw un o'r gwaharddiadau neu ofynion o safbwynt gweithgareddau a ddisgrifir yn adran 1 a 2 (i-vi), byddant yn troseddu a'r mwyafswm cost ar gollfarn ddiannod yw dirwy dim mwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1000) neu rybudd cosb benodedig o £100.

(b) Os, heb esgus rhesymol, y canfyddir bod unigolyn yn torri unrhyw un o'r gwaharddiadau neu ofynion o safbwynt gweithgareddau a ddisgrifir yn adran 2 (vii), byddant yn troseddu a'r mwyafswm cost ar gollfarn ddiannod yw dirwy dim mwy na lefel 2 ar y raddfa safonol neu rybudd cosb benodedig o fwyafswm o £100.

4. Apeliadau

Rhaid cyflwyno unrhyw her i'r Gorchymyn yn yr Uchel Lys gan unigolyn â diddordeb o fewn 6 wythnos ar ôl iddo gael ei lunio. Unigolyn â buddiant yw rhywun sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig, yn gweithio yn yr ardal gyfyngedig neu'n ymweld â'r ardal gyfyngedig yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r hawl i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan gaiff gorchymyn ei amrywio gan y Cyngor.

2 Bydd mangre drwyddedig yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â marchnadoedd cyfandirol / gwyliau cwrw / marchnadoedd stryd lle mae Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro wedi'i dderbyn, felly bydd yn fangre drwyddedig am y cyfnod maen nhw yno.

Gall unigolion â diddordeb herio dilysrwydd y Gorchymyn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys gwaharddiadau penodol neu ofynion: neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, er enghraifft ymgynghori.

Pan wneir cais gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Mae drafft y gorchymyn arfaethedig wedi'i nodi uchod. Mae'r gorchymyn arfaethedig hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.wreccsam.gov.uk ynghyd â dogfennau canllawiau ar y ddeddfwriaeth a chwestiynau cyffredin.

Gall unigolion â diddordeb herio dilyswydd y Gorchymyn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys gwaharddiadau penodol neu ofynion: neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, er enghraifft ymgynghori.

Pan wneir cais gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Mae drafft y gorchymyn arfaethedig wedi'i nodi uchod. Mae'r gorchymyn arfaethedig hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.wreccsam.gov.uk ynghyd â dogfennau canllawiau ar y ddeddfwriaeth a chwestiynau cyffredin.

Dyddiad: 27 Chwefror.....2020

SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM a gysylltwyd a hyn yng ngwydd:

Shyn Davis

Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid



83/20

MAP O'R ARDAL BERTHNASOL

